# CANOLFAN Dylan Thomas CENTRE

## Events Programme
## Spring 2018

## Rhaglen Ddigwyddiadau
## Y Gwanwyn 2018









heritage treftadaeth
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council




## Love the Words

We would like to take this opportunity to thank the Heritage Lottery Fund for their support of our 'Love the Words' exhibition, events, activities and community outreach projects over the last 4 years.

In order to reduce our impact on the environment, in the future all details of our events and exhibitions will be available on our website, **dylanthomas.com** or, if you would like to request printed materials, please call us on **01792 463980** or pop in to see us!

dylanthomas.com

## Dwlu ar y Geiriau

Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Gronfa Dreftadaeth y Loteri am gefnogi ein harddangosfeydd, ein digwyddiadau, ein gweithgareddau a'n prosiectau allgymorth mewn cymunedau ar gyfer 'Dwlu ar y Geiriau' dros y 4 blynedd diwethaf.

Er mwyn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, yn y dyfodol bydd holl fanylion ein digwyddiadau a'n harddangosfeydd ar gael ar ein gwefan, **dylanthomas.com/cy**, neu ffoniwch **01792 463980** os hoffech gael deunyddiau ar bapur neu galwch heibio i'n gweld!

dylanthomas.com/cy



## Spring Events 2018

Saturday 3 February,
10.30am - 1pm

### Saturday Craft Workshop for Adults

Join us for a Dylan Thomas-themed Saturday craft session. We'll be making felt brooches inspired by the animals featured in Dylan's poems.

FREE – please book to reserve your place.

---

Saturday 3 March,
10.30am - 1pm

### Saturday Craft Workshop for Adults

Join us for a Dylan Thomas-themed Saturday craft session. Today we'll be celebrating with a World Book Day themed craft project.

FREE – please book to reserve your place.




## Digwyddiadau y Gwanwyn 2018

Dydd Sadwrn 3 Chwefror,
10.30am - 1pm

### Gweithdy Crefftau Dydd Sadwrn i Oedolion

Ymunwch â ni am sesiwn grefft ddydd Sadwrn ar thema Dylan Thomas. Byddwn yn gwneud bathodynnau ffelt wedi'u hysbrydoli gan yr anifeiliaid sy'n ymddangos yng ngherddi Dylan.

AM DDIM - cofiwch gadw lle ymlaen llaw.

---

Dydd Sadwrn 3 Mawrth,
10.30am - 1pm

### Gweithdy Crefftau Dydd Sadwrn i Oedolion

Ymunwch â ni am sesiwn grefft ddydd Sadwrn ar thema Dylan Thomas. Heddiw byddwn yn dathlu gyda phrosiect crefft ar thema 'Diwrnod y Llyfr'.

AM DDIM - cofiwch gadw lle ymlaen llaw.

Saturday 10 February,
10.30am - 1pm

## Poetry Workshop with Helen May Williams:
## Retelling Myths in Different Voices

**Everyone will have a different myth that speaks to them:** for some it will be a well-loved story from the *Mabinogion* or *Brothers Grimm*, for others it will be a story from Greek, Roman or Norse mythology.

You will explore different ways of retelling your chosen myth and find ways to make an ancient story resonate anew in a contemporary setting.

**Full Price £10; Concessions £7; Swansea PTL £4.**

**Please book in advance.**

Dydd Sadwrn 10 Chwefror,
10.30am - 1pm

## Gweithdy Barddoniaeth gyda Helen May Williams:
## Ailadrodd Chwedlau mewn Lleisiau Gwahanol

**Bydd gan bawb chwedl wahanol sy'n creu argraff arno:** i rai, stori boblogaidd o'r *Mabinogi* neu gan y *Brodyr Grimm* fydd hi, ond i eraill gallai fod yn stori o fytholeg Roegaidd, Rufeinig neu Lychlynnaidd.

Byddwch yn archwilio ffyrdd gwahanol o ailadrodd y chwedl o'ch dewis a chwilio am ffyrdd o roi bywyd newydd i stori hynafol mewn lleoliad cyfoes.

**Pris Llawn £10; Consesiynau £7; PTL Abertawe £4.**

**Mae angen cadw lle ymlaen llaw.**





Saturday 17 February,
1pm - 2pm

## The Forgotten Burton:
## P.H. Burton, Schoolmaster, Playwright, Producer and Performer

This talk by the biographer and historian Angela V. John, with the participation of Fluellen Theatre Company, will explore the life of the boy from Mountain Ash who became P.H. Burton - Port Talbot's schoolmaster extraordinaire, and Richard Burton's mentor

Philip Burton was also a writer and dramatist (whose interwar play 'Granton Street' was revived last year, to great acclaim, by Fluellen), and a BBC producer who worked with Dylan Thomas, before becoming a musical theatre director and performer of Shakespearean lecture recitals in the United States.

**Full Price £5;
Swansea PTL £1.60.**

Dydd Sadwrn 17 Chwefror,
1pm - 2pm

## Y Burton Angof:
## P.H. Burton, Athro, Dramodydd, Cynhyrchydd a Pherfformiwr

Bydd y sgwrs hon gan y bywgraffydd a'r hanesydd Angela V. John, ar y cyd â Chwmni Theatr Fluellen, yn archwilio bywyd y bachgen o Aberpennar a ddaeth yn P.H. Burton - athro athrylithgar Port Talbot a mentor Richard Burton.

Roedd Philip Burton yn llenor ac yn ddramodydd hefyd (atgyfodwyd ei ddrama o'r cyfnod rhwng y rhyfeloedd, 'Granton Street', y llynedd gan Fluellen, gan ennill clod mawr), ac yn un o gynhyrchwyr y BBC a fu'n gweithio gyda Dylan Thomas, cyn bod yn gyfarwyddwr theatr gerdd ac yn berfformiwr darnau o waith Shakespeare mewn darlithoedd yn yr Unol Daleithiau.

**Pris Llawn £5;
PTL Abertawe £1.60.**



Sunday 18, Tuesday 20, Saturday 24 & Sunday 25 February, 10am - 4pm

Thursday 22 February, 10am - 1pm

## Dylan's Animals: Self-Led Activities

Our family friendly Learning Space will be open for free self-led play. Activities include creative writing, make a mini comic, puppets, games, reading corner, crafts and dressing up costumes, all inspired by the animals featured in Dylan Thomas' work.

Great for families with children of all ages.

Drop-in, FREE.

Dydd Sul 18, dydd Mawrth 20, dydd Sadwrn 24 a dydd Sul 25 Chwefror, 10am - 4pm

Dydd Iau 22 Chwefror, 10am - 1pm

## Anifeiliaid Dylan: Gweithgareddau Hunanarweiniedig

Bydd ein Man Dysgu sy'n addas i deuluoedd ar agor ar gyfer chwarae hunanarweiniedig am ddim. Mae gweithgareddau'n cynnwys ysgrifennu creadigol, creu comic bach, pypedau, gemau, cornel ddarllen, crefftau a dillad gwisgo lan, gyda'r cyfan wedi'i ysbrydoli gan yr anifeiliaid yng ngwaith Dylan Thomas.

Yn wych i deuluoedd gyda phlant o bob oedran.

Galw heibio, AM DDIM.






Monday 19 February, 1pm - 4pm

## Family Workshop: Dylan's Animals

We'll create sculptural 3D animal masks inspired by some of the animals featured in Dylan Thomas' work, including foxes, owls and tigers. There will also be face painting, and a whole host of fun activities, all inspired by Dylan's animals.

Suitable for all ages and abilities.

Drop-in, FREE.

Dydd Llun 19 Chwefror, 1pm - 4pm

## Gweithdy i'r Teulu: Anifeiliaid Dylan

Byddwn ni'n creu mygydau anifeiliaid 3D cerfluniol wedi'u hysbrydoli gan rai o'r anifeiliaid yng ngwaith Dylan Thomas, gan gynnwys cadnoid, tylluanod a theigrod. Yn ogystal, bydd paentio wynebau a llu o weithgareddau difyr, i gyd wedi'u hysbrydoli gan anifeiliaid Dylan.

Addas ar gyfer pob oed a gallu.

Galw heibio, AM DDIM.



Wednesday 21 February,
1pm - 3pm

## Secrets of the Sea: A Creative Writing Workshop with Eloise Williams

Let's hoist anchor, shiver our timbers and set sail to find the secrets of the sea. Map unchartered territory. Discover new horizons. Swim in an ocean of words.

Will your thoughts bubble up to the surface or ride a submarine along the ocean bed? It doesn't matter if you are floating or sinking, as long as you are creating and thinking! Plummet the hidden depths of your imagination. Come on dive in!

Open to courageous seafarers aged 6 - 10.

Please bring creativity, ideas for undiscovered sea monsters and adults dressed as pirates (optional).

FREE - please book ahead.

Dydd Mercher 21 Chwefror,
1pm - 3pm

## Cyfrinachau'r Môr: Gweithdy Ysgrifennu Creadigol gydag Eloise Williams

Gadewch i ni godi'r angor a chodi hwyl i ddarganfod cyfrinachau'r môr. Dewch i fapio tiroedd tramor, darganfod gorwelion newydd a nofio mewn môr o eiriau.

A fydd eich meddyliau'n gorlifo neu'n teithio mewn llong danfor ar wely'r môr? Nid oes ots os ydych yn arnofio neu'n suddo, ar yr amod eich bod yn creu ac yn meddwl! Plymiwch i ddyfnderoedd cudd eich dychymyg!

Ar agor i fordeithwyr dewr 6 - 10 oed.

Dewch â chreadigrwydd, syniadau am angenfilod dyfrol newydd sbon ac oedolion mewn gwisg môr-leidr (dewisol).

AM DDIM - cadwch le ymlaen llaw.



Friday 23 February,
1pm - 2.30pm & 2.30pm - 4pm

## Family Workshop: Dylan's Animals, Printed Totes and T-shirts

Create a tote bag, t-shirt or art for your wall, inspired by the animals and birds such as foxes, whales, owls and octopi, which feature in Dylan Thomas' work.

There will be free materials to make a wall art print, or alternatively you can bring your own blank cotton t-shirt to print on. Blank tote bags and t-shirts will also be available to purchase on the day for £1.00 per bag or £3 per t-shirt.

Recommended age range 8+

FREE - please book to reserve your place.





Dydd Gwener 23 Chwefror,
1pm - 2.30pm a 2.30pm - 4pm

## Gweithdy i'r Teulu: Anifeiliaid Dylan, Bagiau Cario a Chrysau-T Printiedig

Dewch i greu bag cario, crys-T neu waith celf ar gyfer eich wal, wedi'u hysbrydoli gan yr anifeiliaid a'r adar, fel cadnoid, morfilod, tylluanod ac octopysau, sy'n rhan o waith Dylan Thomas.

Bydd deunyddiau am ddim i wneud print gwaith celf i'w roi ar wal, neu gallwch ddod â'ch crys-T cotwm gwag eich hun i brintio arno. Bydd bagiau cario a chrysau-T gwag hefyd ar gael i'w prynu ar y diwrnod am £1.00 y bag neu £3 y crys-T.

Ystod oedran gymeradwy 8+

AM DDIM - cofiwch gadw lle ymlaen llaw.




Thursday 1 March,
10am - 3.30pm

## World Book Day

Whether you're a family, school group, adult education group or nursery class the Dylan Thomas Exhibition is a great place to visit on World Book Day. As well as our free, interactive 'Love the Words' exhibition, we're offering a range of exciting activities and workshops.

10am - 1pm: Schools & nursery group sessions in our Dylan Thomas exhibition & Learning Space. Please contact our Learning Officer Nicola - nicola.kelly@swansea.gov.uk - for more details and to book.

1.30pm - 3.30pm: Our family drop-in event in the afternoon will include stories, crafts and face painting as your favourite book character!

Drop-in, FREE.

Dydd Iau 1 Mawrth,
10am - 3.30pm

## Diwrnod y Llyfr

Os ydych yn deulu, yn grŵp ysgol, yn grŵp addysg oedolion neu'n ddosbarth meithrin,mae arddangosfa Dylan Thomas yn lle gwych i ymweld ag ef ar Ddiwrnod y Llyfr. Yn ogystal â'n harddangosfa ryngweithiol am ddim, 'Dwlu ar y Geiriau', rydym yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau a gweithdai cyffrous.

10am - 1pm: Sesiynau grwpiau ysgolion a meithrin yn ein Harddangosfa Dylan Thomas a'r man dysgu. Cysylltwch â'n Swyddog Dysgu, Nicola - nicola.kelly@swansea.gov.uk - i gael mwy o fanylion a chadw lle.

1.30pm - 3.30pm: Bydd ein sesiwn galw heibio i deuluoedd yn y prynhawn yn cynnwys straeon, crefftau a phaentio wynebau fel eich hoff gymeriad llyfr!

Galw heibio, AM DDIM.








## 'Love the Words' EXHIBITION

Open 7 days a week,
10am - 4.30pm

### The Story of Dylan Thomas

Find out about the life, work and legacy of Swansea's most famous son through dynamic, dramatic and interactive displays.

## ARDDANGOSFA 'Dwlu ar y Geiriau'

Ar agor 7 niwrnod yr wythnos, 10am - 4.30pm

### Stori Dylan Thomas

Dewch i ddysgu mwy am fywyd, gwaith ac etifeddiaeth mab enwocaf Abertawe trwy arddangosfeydd deinamig, dramatig a rhyngweithiol.

**www.dylanthomas.com/exhibition**
**www.dylanthomas.com/cy/arddangosfa**



All information correct at time of going to print.

If you require this brochure in a different format please contact Marketing Services on **01792 635478**.

For more information on any of these events, or to buy tickets:

**dylanthomas.com**
**01792 463980**

**Dylan Thomas Centre**
Somerset Place, Swansea
SA1 1RR

Cover image taken by Swansea People First.

Mae'r holl wybodaeth yn gywir wrth fynd i'r wasg.

Os hoffech gael y llyfryn hwn mewn fformat arall, ffoniwch y Gwasanaethau Marchnata ar **01792 635478**.

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r digwyddiadau hyn, neu i brynu tocynnau, defnyddiwch y manylion isod:

**dylanthomas.com/cy**
**01792 463980**

**Canolfan Dylan Thomas**
Somerset Place, Abertawe
SA1 1RR

Llun y clawr gan Bobl yn Gyntaf Abertawe.

Proud to be committed to/Yn falch o fod yn ymroddedig i:

Family Arts Standards with Family and Childcare Trust

Safonau Celfyddydau i'r Teulu gyda Family and Childcare Trust

42712-17 Designed & Printed at DesignPrint / Dyluniwyd ac argraffwyd gan DesignPrint